*Hydref 2011*

# UNED POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD CYTUNDEB RHANNU GWASANAETH

**Cytundeb Rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn i gefnogi a darparu Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd ar gyfer ardaloedd Awdurdodau Cynllunio Lleol Gwynedd a Môn**

Mae'r Cytundeb Rhannu Gwasanaeth yn cael ei wneud ar 13 Hydref 2011

**Rhwng:**

Cyngor Gwynedd (1)

A

Chyngor Sir Ynys Môn (2).

**Mae'r Cytundeb hwn dyddiedig 13 Hydref 2013**

**Yn cael ei wneud RHWNG**

**(1) Cyngor Gwynedd o** Swyddfeydd y Cyngor, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH (Cyngor Gwynedd).

**(2) Cyngor Sir Ynys Môn** o Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TW ("Cyngor Sir Ynys Môn")

**Cefndir**

a) Cytunodd yr Awdurdodau Cynllunio Lleol Partner ar 15 Mehefin 2010 i sefydlu cytundeb ffurfiol i weithio ar y cyd i ddarparu Gwasanaeth Polisi Cynllunio. Cytunodd yr awdurdodau i:

   i. **Sefydlu Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd i ddarparu Gwasanaeth Cynllunio Polisi ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol Gwynedd ac Ynys Môn.**
   ii. **Bod yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd i ddechrau gweithio ar un Cynllun Datblygu Lleol sengl ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol Gwynedd ac Ynys Môn.**
   iii. **Ffurfio Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd fel corff trawsffiniol ar gyfer cymryd penderfyniadau.**

b) Mae'r Cytundeb hwn yn sefydlu'r trefniadau i gefnogi ac i ddarparu Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd ar gyfer ardaloedd Awdurdodau Cynllunio Lleol Gwynedd a Môn.

**c)** Mae yna gytundeb ar wahân ar gyfer y ddau Awdurdod Cynllunio Lleol Partner i gefnogi a darparu'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd sydd wedi'i gynnwys yn **Atodiad A.**

**CYTUNIR TRWY HYN fel a ganlyn:-**

1. Fod Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn wedi cytuno i gefnogi'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd drwy drosglwyddiad TUPE o staff i'r Awdurdod Lletya, trosglwyddiadau eraill a / neu benodi staff i'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd a / neu ddarparu gwasanaethau am arian neu am dâl heblaw drwy arian. **(gweler Atodiad B – Cwmpas Gwaith yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd)**

2. Ar 1 Mai 2011 mae'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn cael ei chreu i ddarparu gwasanaeth polisi cynllunio, gan gynnwys Cynllun Datblygu Lleol sengl ar gyfer ardaloedd Awdurdodau Cynllunio Lleol Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn. **(gweler Atodiad C Strwythur Staff yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd)**

3. Mae Bwrdd Prosiect ar y Cyd yn cael ei greu a fydd yn cynnwys Swyddogion Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn i arolygu gwaith yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd. **(gweler Atodiad D: Bwrdd Prosiect ar y Cyd – Cylch Gorchwyl)**

4. Cyngor Gwynedd fydd yr Awdurdod Lletya a bydd yn gyfrifol am reoli'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd o ddydd i ddydd gan adrodd i'r Bwrdd Prosiect ar y Cyd.

5. Bydd Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletya, yn gweithredu fel prif gyflogwr yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd ac yn rheoli darparu swyddfeydd, offer swyddfeydd, gwasanaethau cyfrifiadurol a gwasanaethau cefnogol eraill. (Gweler cymalau 2.5, 2.6 a 2.7 ynghylch y trefniadau ariannol rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn).

6. Mae'r materion sy'n cael eu dangos isod yn ffurfio sail y berthynas a'r cytundeb rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn fel yr Awdurdodau Cynllunio Lleol Partner.

**CYTUNIR HEFYD TRWY HYN fel a ganlyn:-**

1. **Dehongliad**

1.1 Yn y Cytundeb hwn, mae ystyr yr ymadroddion canlynol fel a ganlyn oni bai bod hynny'n anghyson â'r cyd-destun

"Cytundeb" yw'r Cytundeb hwn ac mae'n cynnwys pob Atodlen ac Atodiad

"Rhybudd Diffygion" yw rhybudd sy'n cael ei gyflwyno gan barti yn unol â Chymal 6

"Awdurdod Lletya" yw Cyngor Gwynedd

"Bwrdd Prosiect ar y Cyd" yw'r Bwrdd Prosiect ar y Cyd ar gyfer Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn y cyfeirir ato yn Atodiad D i'r Cytundeb hwn.

"Cylch Gorchwyl y Bwrdd Prosiect ar y Cyd" yw'r cylch gorchwyl y cyfeirir ato yn Atodiad D i'r Cytundeb hwn.

"Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd" yw'r pwyllgor Polisi Cynllunio ar y cyd a sefydlwyd o dan y cytundeb dyddiedig 1 Chwefror 2011 ac sydd i'w weld yn Atodiad A y Cytundeb hwn.

"Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd" yw'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd y mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn wedi'i chreu o dan y Cytundeb hwn

"Parti" yw'r partion yn y Cytundeb hwn

"Rheolwr Cynllunio" yw Rheolwr Cynllunio'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd

"Awdurdod Cynllunio Lleol Partner" yw'r Awdurdodau Cynllunio Lleol Partner, sef Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn.

"Uwch Reolwr" yw'r Uwch Reolwr, Gwasanaeth Amgylcheddol Cyngor Gwynedd

"TUPE" yw Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 ac unrhyw ailddeddfiad o'r Rheoliadau

"Rhaglen Waith" yw rhaglen waith yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd

Ystyr "Cytundeb Darparu" yw'r Cytundeb sydd ei angen yn unol â Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) 2005 sy'n dangos pa bryd a sut y bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei baratoi ar gyfer Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn

**2 Yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd**

***2.1 Staffio***

***Creu'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd***

2.1.1 Bydd staff Cyngor Gwynedd yn cael eu penodi i'r Uned Polisi Cynllunio ar y cyd yn unol â Gweithdrefn Cyngor Gwynedd ar gyfer penodi i swyddi mewn gwasanaethau / unedau wedi cael eu hailstrwythuro ac unrhyw newidiadau i'r weithdrefn honno.

2.1.2 Bydd staff Cyngor Sir Ynys Môn yn cael eu penodi i'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn unol â Pholisi Ailstrwythuro a Diswyddo Môn (Ebrill 2011) ac unrhyw newidiadau i'r polisi hwnnw.

2.1.3 Bydd staff Cyngor Sir Ynys Môn yn trosglwyddo i Gyngor Gwynedd yn unol â gweithdrefnau TUPE ac yn unol â'r Cytundeb Trosglwyddo yn **Atodiad E – Cytundeb Trosglwyddo.**

2.1.4 Bydd staff yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn cynnwys y Rheolwr Cynllunio a staff yr Uned Polisi Cynllunio presennol o Gyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn a bydd y 12 swydd ar y strwythur staff yn swyddi parhaol. **(gweler Atodiad C – Strwythur Staff)**

### 2.2 Rheolaeth ac Adrodd yn Ôl

2.2.1 Bydd Cyngor Gwynedd yn gweithredu fel prif gyflogwr yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd.

2.2.2 Y Rheolwr Cynllunio fydd yn rheoli gwaith staff yr Uned Polisi Cynllunio ar y cyd a bydd yn adrodd wrth yr Uwch Reolwr a fydd yn adrodd wrth y Bwrdd Prosiect ar y Cyd.

2.2.3 Bydd y Rheolwr Cynllunio'n paratoi Rhaglen Waith i arwain gweithgareddau'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd ac (yn ôl y gofyn) yn adrodd ac yn cyflwyno argymhellion ar ôl ymgynghori â'r Bwrdd Prosiect ar y Cyd ar natur a nifer y staff sydd eu hangen i weithio yn yr Uned ar unrhyw adeg.

### 2.3 Swyddi gwag yn yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd

2.3.1 Os bydd unrhyw swyddi gwag yn strwythur staff yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd neu os daw swyddi'n wag bydd y Rheolwr Cynllunio, ar ôl ymgynghori â'r Uwch Reolwr, yn cyflwyno argymhellion i'r Bwrdd Prosiect ar y Cyd i gael cytundeb cyn cychwyn ar y trefniadau i lenwi unrhyw swydd(i).

2.3.2 Bydd staff yn cael eu penodi i swyddi gwag yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Cyngor Gwynedd ond gan ymgynghori â'r Bwrdd Prosiect ar y Cyd.

### *2.4 Swyddfeydd a Theithio*

2.4.1 Bydd swyddfa pob aelod o staff yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd fel arfer yn swyddfeydd Cyngor Gwynedd yn Neuad y Ddinas, Bangor. Efallai y bydd darnau unigol o waith yn cael eu cwblhau ar unrhyw safle gan Gyngor Gwynedd neu Gyngor Sir Ynys Môn gyda chytundeb y Rheolwr Cynllunio neu, yn absenoldeb y Rheolwr Cynllunio, yr Uwch Reolwr.

2.4.2 Bydd cerbyd ar gael o gronfa gerbydau Cyngor Gwynedd ar gyfer staff yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (fel defnyddwyr â blaenoriaeth) a staff eraill Adran Reoleiddio Cyngor Gwynedd (os bydd cerbydau ar gael). Bydd y ddarpariaeth / yr angen am gerbyd o'r gronfa'n cael ei asesu'n flynyddol ac efallai y bydd Cyngor Gwynedd yn tynnu'r ddarpariaeth hon yn ôl os bydd tystiolaeth mai prin yw'r defnydd ac nad yw'n gost effeithiol.

### *2.5 Materion Ariannol – Cyffredinol*

2.5.1 Cyngor Gwynedd fydd yn gyfrifol am reolaeth ariannol a gweinyddiaeth ariannol yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd.

2.5.2 Bydd y Rheolwr Cynllunio, gan ymgynghori gyda'r Uwch Reolwr ac â Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd, yn gosod y gyllideb ar gyfer yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd ac yn cyflwyno argymhellion i'r Bwrdd Prosiect ar y Cyd i gael cytundeb erbyn diwedd Chwefror bob blwyddyn.

2.5.3 Bydd y gyllideb yn cael ei chyflwyno ar gyfer costau staffio, ymchwil a phrosesu'r cynllun datblygu lleol ar wahân ar gyfer y flwyddyn i ddilyn.

2.5.4 Bydd Cyngor Gwynedd yn talu costau adnewyddu swyddfeydd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn Neuadd y Ddinas, Bangor.

## 2.6 Materion Ariannol - Staffio

2.6.1 Bydd Cyngor Gwynedd, ar ôl 1 Ebrill, yn anfonebu Cyngor Sir Ynys Môn am flaen daliad o 50% o gyfanswm costau staff yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd a nodir yn y gyllideb flynyddol ac sydd wedi'u cytuno gan y Bwrdd Prosiect ar y Cyd.

2.6.2 Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn trosglwyddo cyfwerth 50% o'r gyllideb ynghylch staffio i Gyngor Gwynedd o fewn 14 diwrnod o dderbyn yr anfoneb oddi wrth Gyngor Gwynedd.

2.6.3 Bydd y Rheolwr Cynllunio, ar ôl ymgynghori â'r Uwch Reolwr, yn adrodd, ac yn cyflwyno argymhellion i, y Bwrdd Prosiect ar y Cyd ynghylch unrhyw angen a nodwyd am ragor o arian ar gyfer staffio i sicrhau y darperir y gwasanaeth yn effeithiol.

2.6.4 Os bydd tanwariant yn y gyllideb staffio, bydd y tanwariant yn cael ei fuddsoddi yn y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd.

## 2.7 Materion Ariannol – Ymchwil a Phroses y Cynllun Datblygu Lleol

2.7.1 Nodir cyfraniad yr Awdurdodau Cynllunio Lleol Partner at gostau ymchwili i'r broses o ddatblygu'r cynllun datblygu lleol wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, yn seiliedig ar yr wybodaeth orau sydd ar gael ac sydd i'w weld yn Atodiad F – **Proffiliau Gwariant Posibl** a fydd yn cael ei adolygu bob blwyddyn a'i gynnwys yng nghyllideb flynyddol yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd.

2.7.2 Bydd Cyngor Gwynedd yn anfonebu Cyngor Sir Ynys Môn bob blwyddyn ymlaen llaw ar 1 Ebrill am y cyfaniad at gostau ymchwil a phroses y cynllun datblygu lleol.

2.7.3 Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn talu i Gyngor Gwynedd, bob blwyddyn ac o fewn 14 diwrnod o dderbyn anfoneb, y cyfraniad at gostau ymchwil a phroses y cynllun datblygu lleol.

2.7.4 Bydd y Rheolwr Cynllunio, ar ôl ymgynghori â'r Uwch Reolwr, yn cyflwyno i'r Bwrdd Prosiect ar y Cyd adroddiadau ariannol y gwariant ar ymchwil a phroses y cynllun datblygu lleol yn ôl y gofyn.

2.7.5 Bydd y Rheolwr Cynllunio, ar ôl ymgynghori â'r Uwch Reolwr, yn adrodd ac yn cyflwyno argymhellion i'r Bwrdd Prosiect ar y Cyd ynghylch unrhyw orwariant a ddisgwylir a / neu annisgwyl.

2.7.6 Os bydd tanwariant yn y gyllideb ymchwil a phroses y cynllun datblygu lleol, bydd hyn yn cael ei ail-fuddsoddi yng nghyllideb yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn y flwyddyn ddilynol.

## 3. Trefniadau caffael ar gyfer ymchwil

3.1 Bydd trefniadau caffael yn unol â gofynion Cyngor Gwynedd fel yr Awdurdod Lletya.

3.2 Bydd trefniadau talu yn unol â gweithdrefnau a rheoliadau ariannol Cyngor Gwynedd.

## 4. Hyd y cytundeb a newidiadau

4.1 Bydd y cytundeb hwn yn cychwyn ar 1 Mai 2011 a bydd yn parhau nes y bydd y Cynllun Datblygu Lleol sengl ar gyfer y ddau Awdurdod Cynllunio Lleol yn cael i fabwysiadu neu tan 31 Rhagfyr 2017, pa un bynnag a ddaw gyntaf oni bai ei fod yn cael ei ymestyn drwy gytundeb gan yr Awdurdodau Cynllunio Lleol Partner.

4.2 Bydd ymestyn, addasu neu newid y cytundeb hwn angen caniatâd yr Awdurdodau Cynllunio Lleol Partner drwy'r Bwrdd Prosiect Lleol ar y Cyd.

## 5. Datrys anghydfod

5.1 Os bydd yna unrhyw anghydfod ynghylch dehongli neu weithredu'r Cytundeb hwn gall unrhyw barti hysbysu'r parti arall yn ysgrifenedig ei fod yn dymuno cyfeirio'r anghydfod i'w ddatrys mewn cyfarfod o'r Bwrdd Prosiect ar y Cyd gyda phob parti yn trafod mewn ewyllys da.

5.2 Os, o fewn 28 diwrnod o ddyddiad y rhybudd y cyfeirir ato yn 5.1 uchod (neu gyfnod hwy os yw'r Partïon yn cytuno), nad yw'r anghydfod wedi'i ddatrys, bydd y Bwrdd Prosiect ar y Cyd yn cyfeirio'r mater yn y lle cyntaf at Brif Weithredwyr y ddau Awdurdod Cynllunio Lleol Partner a fydd yn ymdrechu i ddatrys yr anghydfod o fewn cyfnod rhesymol neu, os na ellir cyrraedd cytundeb, gellir cyfeirio'r mater i Gyflafareddiad ar y sail ganlynol:

5.2.1 Bydd y cyfeiriad at un Cyflafareddwr sengl wedi'i ddewis gan y Bwrdd Prosiect ar y Cyd neu, os na cheir cytundeb, wedi'i enwebu gan Lywydd Sefydliad Siartredig y Cyflafareddwyr.

5.2.2 Bydd unrhyw gyflafareddiad yn cael ei gynnal yn unol â darpariaethau Deddf Cyflafareddu 1996 a bydd gan y Cyflafareddwr hawl i:

5.2.2.1 Gael cymorth arbenigwyr fel y gwêl yn dda ac i ddefnyddio unrhyw ddatganiad neu adroddiad sydd i law; a

5.2.2.2 Gorchymyn a chyfarwyddo beth, yn ôl ei farn ef neu hi, ddylai unrhyw un o'r ddau Gyngor ei wneud i setlo'r materion sydd wedi achosi'r anghydfod.

5.2.2.3 Bydd dyfarniad y Cyflafareddwr yn derfynol ac yn rhwymo pob parti.

## 6. Diffygion

6.1 Heb ragfarn i unrhyw hawl neu rwymedi arall (un ai ar gais rhesymol unrhyw Barti gyda chefnogaeth tystiolaeth sydd, yn ôl pwysau tebygolrwydd yn dangos diffyg cydymffurfiad, neu ar ei ben ei hunan os yw'n dangos tystiolaeth sydd, yn ôl pwysau tebygolrwydd yn dangos diffyg cydymffurfiad) gall unrhyw Barti gyflwyno Rhybudd Diffygion i unrhyw Barti i'r diffyg yn

dangos natur y diffyg honedig ac yn gofyn i'r Parti sy'n gyfrifol am y diffyg ei gywiro o fewn cyfnod rhesymol sy'n cael ei ddangos yn y Rhybudd Diffygion.

6.2 Bydd unrhyw anghydfod ynghylch cynnwys y Rhybudd Diffygion a / neu ei gyflwyno o dan y cymal 6 hwn yn cael ei gyfeirio at y Bwrdd Prosiect ar y Cyd a fydd yn dyfarnu yn ei gylch ar y cyfle cyntaf a fydd yn codi.

6.3 Os na chydymffurfir ag unrhyw Rybudd Diffygion a gyflwynir o dan gymal 6.1 o fewn y cyfnod a ddangosir yn y Rhybudd Diffygion neu os nad yw'r Bwrdd Prosiect ar y Cyd yn gallu dyfarnu yn unol â 6.2 uchod bydd y mater yn dilyn y broses Datrys Anghydfod y cyfeirir ati yng nghymal 5.

6.4 Gall un o’r ddau Barti ddod â'r Cytundeb hwn i ben drwy roi o leiaf 12 mis o rybudd ysgrifenedig i'r parti arall.

## *7.* Safonau Gwasanaeth

7.1 Cyngor Gwynedd fydd Awdurdod Lletya’r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd a bydd yn adrodd i’r Bwrdd Prosiect ar y Cyd yn unol â Chylch Gorchwyl y Bwrdd Prosiect ar y Cyd (**gweler Atodiad D**).

7.2 Bydd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn atebol i’r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd a bydd yn sicrhau fod y cyngor a roddir i’r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn gymwys ac yn cydymffurfio â’r Gyfraith bresennol ac ag ymarfer da. Bydd y Rheolwr Cynllunio’n paratoi rhaglen arfaethedig o gyfarfodydd y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd fel rhan o’r Rhaglen Waith a bydd yn sicrhau fod gwybodaeth yn cael ei rannu yn unol â safonau sydd wedi'u sefydlu yn yr Awdurdod Lletya.

7.3 Bydd gwaith yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd wrth baratoi’r Cynllun Datblygu Lleol sengl yn derbyn mewnbwn gan y Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a bydd rhaglen arfaethedig o gyfarfodydd y Panel yn cael ei pharatoi fel rhan o'r Rhaglen Waith gyda gwybodaeth yn cael ei rannu yn unol â safonau sydd wedi'u sefydlu yn yr Awdurdod Lletya.

7.4 Bydd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn ymgymryd â’r tasgau sydd eu hangen ar gyfer paratoi’r Cynllun Datblygu Lleol sengl, yn unol â’r Cytundeb Darparu sydd wedi’i gytuno â Llywodraeth Cymru.

7.5 Bydd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn cyfnewid gwybodaeth yn llawn ac yn brydlon gyda chwsmeriaid yn yr Awdurdodau Cynllunio Lleol Partner ac yn allanol, yn unol â safonau sydd wedi'u sefydlu yn yr Awdurdod Lletya.

## 8. CYFATHREBU'N YSGRIFENEDIG

8.1 Bydd unrhyw gyfathrebiad y mae'n rhaid iddo fod yn ysgrifenedig o dan delerau’r Cytundeb hwn yn cael ei anfon at y cyfeiriadau a ddangosir ar ddechrau’r Cytundeb hwn a’i farcio at sylw’r person perthnasol a nodir ar gyfer pob un o’r Awdurdodau Cynllunio Lleol Partner.

## 9. HAWLIAU TRYDYDD PARTÏON

9.1 I’r graddau y gellir gorfodi unrhyw ddarpariaeth yn y Cytundeb hwn yn gyfreithiol (ac eithrio fel y nodir yn y Cytundeb hwn) mae partïon y Cytundeb yn cadarnhau ac yn cytuno nad ydynt yn bwriadu i unrhyw ddarpariaeth ynddo allu cael ei orfodi gan unrhyw berson arall yn unol â'r Ddeddf Contract (Hawliau Trydydd Partion) 1999 ac eithrio fel y dangosir yn y Cytundeb hwn.

## 10. RHYDDID GWYBODAETH

10.1 Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn ymwybodol o gyfrifoldebau'r Awdurdod Lleyta o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol a'r Codau Ymarfer perthnasol ac mai cyfrifoldeb Cyngor Gwynedd yn unig yw penderfynu a yw unrhyw eithriad yn berthnasol. Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn cydweithredu, o fewn pum diwrnod gwaith ag unrhyw gais gan Gyngor Gwynedd i ddatgelu yn unol â'r ddeddfwriaeth a grybwyllwyd ynghynt neu ag unrhyw addasiad neu ailddeddfu ohonynt sydd mewn grym ar hyn o bryd.

**Llofnodwyd ar ran CYNGOR GWYNEDD**

**………………………………………………**

Enw: Aled Davies

Swydd: Pennaeth yr Adran Reoleiddio

Dyddiad: 13 Hydref 2011

**Llofnodwyd ar ran Cyngor Sir Ynys Môn**

**………………………………………………**

Enw: Jim Woodcock

Swydd: Pennaeth y Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

Dyddiad: 13 Hydref 2011

**Atodiad A: Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd**

**Atodiad B: Sgôp gwaith yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd**

**Atodiad C: Strwythur Staff ar gyfer yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd**

**Atodiad D: Bwrdd Prosiect ar y Cyd – Cylch Gorchwyl**

**Atodiad E: Cytundeb Trosglwyddo**

**Atodiad F:  Proffiliau Gwariant Posibl**